# ADRODDIAD CRYNO

# Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024

Cyngor Caerdydd



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

# Cynnwys


Cyflwyniad ..... 3

Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ..... 4

Amcan 1: Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd ..... 5

Amcan 2: Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a'r tu hwnt ..... 8

Amcan 3: Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld neu'n gweithio yn y ddinas ..... 11

Amcan 4: Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol ..... 14




Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn iaith arall, Braille, sain, print bras, hawdd ei darllen, fideo IAP neu destun plaen, cysylltwch â'r timcydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

# Cyflwyniad

Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn amlinellu gweledigaeth Cyngor Caerdydd ar gyfer cynyddu a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws y ddinas.

Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi'r amcanion y mae'r sefydliad am eu cyflawni dros gyfnod o bedair blynedd er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb. Gelwir y blaenoriaethau hyn yn Amcanion Cydraddoldeb Strategol.

Mae ein strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn manylu ar ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni. Mae'r strategaeth hon yn rhedeg am bedair blynedd, gan ddechrau ym mis Hydref 2020 a gorffen ym mis Mawrth 2024.

Mae gweledigaeth y Cyngor o ddinas decach a mwy cynhwysol lle gall pawb rannu yn ei llwyddiant wedi'i nodi yn ein Strategaeth Uchelgais Prifddinas. Er bod Caerdydd yn lle gwych i fyw ynddo, nid yw'n rhydd o'r anghydraddoldebau a'r gwahaniaethu hirsefydlog sy'n effeithio ar bob dinas fawr.

Mae'r strategaeth hon yn darparu fframwaith clir ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant ac ymgorffori gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ym mhopeth a wnawn. Prif ddiben gosod yr amcanion cydraddoldeb hyn yw sbarduno gwell canlyniadau i bobl sy'n profi anfantais sy'n gysylltiedig â'u nodweddion gwarchodedig ac o ganlyniad i anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

Nod yr amcanion hyn yw dileu rhwystrau, hyrwyddo cyfle cyfartal, hyrwyddo cysylltiadau da a gwella ein perfformiad o ran cyflawni ein dyletswyddau. Rydym yn cydnabod bod cyflawni'r amcanion hyn yn nod hirdymor a fydd yn gofyn am weithredu ar y cyd, yn rhagweithiol ac yn barhaus er mwyn dangos tystiolaeth o newid.

Byddwn yn ailedrych yn rheolaidd ar y strategaeth hon i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol ac, yn arbennig, ei bod yn adlewyrchu dealltwriaeth gyfoes o'r ffactorau sy'n gyrru anghydraddoldeb yng Nghaerdydd.

## Ymgynghoriad ynghylch ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol

Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol trawsbynciol yn cael eu llywio gan dystiolaeth ynghylch anghydraddoldeb yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd yn ystod ein hymgynghoriad â phreswylwyr, staff a'n partneriaid ynglŷn â'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol arfaethedig a'r camau y mae angen eu cymryd i'w cyflawni.

# Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

| Amcan | Crynodeb |
|---|---|
| 1. Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd. | Byddwn yn darparu gwasanaethau a phartneriaethau cynhwysol sy'n mynd ati i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac allgau ac yn galluogi holl drigolion Caerdydd i wireddu eu potensial a byw'n ddiogel. |
| 2. Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a thu hwnt. | Byddwn yn dangos arweiniad ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru, gan ddal ein hun i safon uchel fel y bydd eraill yn edrych atom fel ffynhonnell arfer da. |
| 3. Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld neu'n gweithio yn y ddinas. | Byddwn yn cymhwyso egwyddorion cynllunio cynhwysol i greu seilwaith dinas sy'n darparu amgylchedd cynhwysol a di-rwystr i'n trigolion a'n rhanbarth ehangach. Bydd hyn yn galluogi pawb i gymryd rhan yn gyfartal, yn hyderus ac yn annibynnol ym mywyd y ddinas. |
| 4. Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol. | Byddwn yn gweithredu camau i sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn adlewyrchu amrywiaeth y ddinas a wasanaethwn yn well, ac yn weithle lle mae cydweithwyr yn teimlo'n hyderus am fod yn nhw eu hunain yn y gwaith. |

Gyda’i gilydd, mae’r amcanion hyn yn ymwneud â phob agwedd ar rolau’r Cyngor fel cyflogwr, fel darparwr gwasanaethau, fel hwylusydd cymunedau cryf ac fel asiantaeth flaenllaw yn y ddinas.

Drwy gydol ein strategaeth rydym yn egluro’r cysylltiadau rhwng ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a’n strategaeth gyffredinol sef Uchelgais Prifddinas, a’n Cynllun Corfforaethol.

Rydym yn nodi camau gweithredu clir a fydd yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion ac yn nodi’r grwpiau rydym yn rhagweld y byddant yn elwa o’u cyflawni.

# Amcan 1:
# Datblygu a darparu gwasanaethau sy'n ymateb i fwlch anghydraddoldeb Caerdydd

Byddwn yn darparu gwasanaethau a phartneriaethau cynhwysol sy'n mynd ati i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac allgáu ac yn galluogi holl drigolion Caerdydd i wireddu eu potensial a byw'n ddiogel.

| | Yr hyn a wnawn | Grwpiau arbennig o berthnasol | Yn gysylltiedig â'r: |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Cynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy newydd. | Pob preswylydd, yn enwedig pobl o gartrefi incwm isel, trigolion BAME a phobl ifanc. | Cynllun Corfforaethol |
| 1.2 | Adeiladu o leiaf 2,000 o gartrefi Cyngor newydd, y bydd 1,000 ohonynt yn cael eu hadeiladu erbyn mis Mai 2022. | Pob preswylydd, yn enwedig pobl o gartrefi incwm isel, trigolion BAME a phobl ifanc. | Cynllun Corfforaethol |
| 1.3 | Gwella safonau yn y sector rhentu preifat drwy gymryd camau gorfodi yn erbyn asiantau amheus a landlordiaid sy'n gosod ac yn rheoli eiddo. | Pobl ifanc, trigolion BAME a chartrefi incwm isel. | Cynllun Corfforaethol |
| 1.4 | Cyflawni'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn i gefnogi byw'n annibynnol, deall anghenion tai pobl hŷn yn llawn ac alinio Gwasanaethau Cyngor a Gwasanaethau Iechyd yn well. | Pobl hŷn a phobl â chyfrifoldebau gofalu. | Cynllun Corfforaethol<br><br>Strategaeth Tai Pobl Hŷn |
| 1.5 | Darparu'r cynllun Grant Cyfleusterau i'r Anabl i gefnogi aelwydydd lle mae person anabl yn byw yn yr eiddo fel ei brif breswylfa. | Pobl anabl, y rhai sy'n dioddef salwch corfforol neu feddyliol, pobl hŷn a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. | Cynllun Grant Cyfleusterau i'r Anabl |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.6 | Cyflawni ein dyletswyddau statudol mewn perthynas ag anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaerdydd. | Sipsiwn a Theithwyr. | Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| 1.7 | Cyflawni'r Strategaeth Cysgu ar y Stryd a'r Strategaeth Ddigartrefedd. | Pobl anabl, pobl sy'n dioddef salwch meddwl, pobl sengl ar incwm isel, ffoaduriaid a dioddefwyr trais domestig. | Cynllun Corfforaethol |
| 1.8 | Gwella'r Gwasanaeth i Mewn i Waith ymhellach drwy barhau i integreiddio gwasanaethau cymorth cyflogaeth. | Pobl ifanc, pobl hŷn, pobl anabl, pobl BAME, menywod a chartrefi incwm isel. | Cynllun Corfforaethol |
| 1.9 | Datblygu modelau newydd o ddarpariaeth addysg amgen i ddysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd rheoli gofynion cwricwlwm prif ffrwd llawn-amser. | Pobl ifanc, pobl o gefndiroedd incwm isel, pobl sy'n dioddef salwch corfforol a/neu feddyliol a phobl anabl. | Cynllun Corfforaethol |
| 1.10 | Cefnogi pobl ifanc i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant drwy gyflawni Addewid Caerdydd. | Pobl ifanc, pobl o gefndiroedd incwm isel, trigolion BAME, trigolion anabl a menywod a merched. | Cynllun Corfforaethol |
| 1.11 | Rhoi Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol adolygedig ar waith erbyn Mawrth 2023 i wella canlyniadau a lles Plant sy'n Derbyn Gofal. | Pobl ifanc, Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl sy'n gadael gofal. | Cynllun Corfforaethol<br><br>Strategaeth Rhianta Corfforaethol a'r Cynllun Gweithredu |
| 1.12 | Gwella iechyd meddwl a lles emosiynol pobl ifanc trwy gynnig dull integredig o gefnogi iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc ar bob rhan o siwrnai'r plentyn. | Pobl ifanc, pobl sy'n dioddef salwch meddwl, trigolion BAME, plant o deuluoedd incwm isel, plant anabl, plant LHDT+ a Phlant sy'n Derbyn Gofal. | Cynllun Corfforaethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1.13 | Cyflawni Strategaeth Datblygu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid - *Dyfodol Pawb*. | Pobl ifanc, pobl sy'n dioddef salwch meddwl, trigolion BAME, plant o deuluoedd incwm isel, Plant sy'n Derbyn Gofal a Phobl sy'n Gadael Gofal. | Strategaeth Datblygu Cyfiawnder Ieuenctid - Dyfodol Pawb. |
| 1.14 | Cyflawni Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023. | Menywod a merched, dynion, pobl sy'n dioddef cam-drin domestig, plant a phobl ifanc. | Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023 |



# Amcan 2:
# Arwain y ffordd ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru a'r tu hwnt

Byddwn yn dangos arweiniad ar gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru, gan ddal ein hun i safon uchel fel y bydd eraill yn edrych atom fel ffynhonnell arfer da. Gwella ein gwaith o gasglu data monitro cydraddoldeb defnyddwyr gwasanaethau a'i ddefnyddio i fesur ein cynnydd.

| | Yr hyn a wnawn | Grwpiau arbennig o berthnasol | Yn gysylltiedig â'r: |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i gyflawni camau gweithredu cydgysylltiedig ar anghydraddoldeb i drigolion Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig Caerdydd. | Trigolion BAME, plant a phobl ifanc a chartrefi incwm isel. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |
| 2.2 | Hyrwyddo a chyflawni hawliau plant trwy ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant UNICEF erbyn 2021. | Plant a phobl ifanc. | Cynllun Corfforaethol<br><br>Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant |
| 2.3 | Cydlynu gweithgarwch i gyflawni Cyfrifiad 2021 mewn partneriaeth â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, er mwyn sicrhau bod yr holl breswylwyr yn cael eu cyfrif a bod eu hanghenion yn cael eu deall wrth gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. | Pob preswylydd, yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel, trigolion BAME, plant a phobl ifanc. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |
| 2.4 | Cyflawni ymgyrch cofrestru pleidleiswyr ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed a thrigolion na chawsant eu geni yn y DU i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cymryd rhan yn etholiad Senedd Cymru yn 2021. | Trigolion BAME, trigolion na chawsant eu geni yn y DU, plant a phobl ifanc. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.5 | Datblygu Strategaeth Ymgysylltu â Dinasyddion i wella cyfranogiad democrataidd lleol a chefnogi dinasyddion i ymwneud â phenderfyniadau lleol. | Pob preswylydd, yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel, trigolion BAME, plant a phobl ifanc. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau<br><br>Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Y Gyfraith a Llywodraethiant |
| 2.6 | Cefnogi cyfranogiad ymhlith y rhai â nodweddion gwarchodedig drwy:<br><br>• Ddarparu gwybodaeth a/neu sesiynau ymgysylltu mewn fformat hygyrch ar faterion allweddol, gan ystyried a lliniaru rhwystrau i gyfranogiad lle bynnag y bo modd, megis drwy ddarparu gwybodaeth mewn iaith arall, Braille, ar ffurf sain, print bras, gwybodaeth hawdd ei darllen, fideo IAP neu destun plaen. | Pob grŵp nodwedd warchodedig, yn enwedig y rhai sydd ag anabledd a siaradwyr ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |
| 2.7 | Annog a chefnogi sefydliadau i gael eu hachredu yn gyflogwyr Cyflog Byw. | Trigolion incwm isel, trigolion BAME, menywod a thrigolion anabl. | Cynllun Corfforaethol<br><br>Cynllun Gweithredu Cyflog Byw |
| 2.8 | Cyflawni Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru. | Pob preswylydd. | Cynllun Corfforaethol<br><br>Rhaglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru |
| 2.9 | Cydlynu ymateb Caerdydd i adael yr Undeb Ewropeaidd drwy gefnogi gwladolion yr UE i wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a pharhau i eirioli dros hawliau mudwyr. | Trigolion na chawsant eu geni yn y DU. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2.10 | Gwella arbenigedd ac arferion lleol o ran cefnogi cymunedau mudol, gan gynnwys cymryd rhan yn y rhwydwaith Dinasoedd Cynhwysol. | Trigolion na chawsant eu geni yn y DU. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |
| 2.11 | Datblygu dangosfwrdd data cydraddoldeb sydd ar gael i'r holl staff sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi a fframwaith cydraddoldeb o ddangosyddion i fesur a monitro ein heffaith. | Pob grŵp nodwedd gwarchodedig, y rhai ar incwm isel. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth - Polisi a Phartneriaethau |



# Amcan 3:
# Mae Caerdydd yn hygyrch i bawb sy'n byw, yn ymweld neu'n gweithio yn y ddinas

Byddwn yn cymhwyso egwyddorion cynllunio cynhwysol i greu seilwaith dinas sy'n darparu amgylchedd cynhwysol a di-rwystr i'n trigolion a'n rhanbarth ehangach. Bydd hyn yn galluogi pawb i gymryd rhan yn gyfartal, yn hyderus ac yn annibynnol ym mywyd y ddinas.

| | Yr hyn a wnawn | Grwpiau arbennig o berthnasol | Yn gysylltiedig â'r: |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Cefnogi'r gwaith o ddarparu cymunedau o ansawdd uchel sydd wedi'u cysylltu'n dda, fel y disgrifiwyd gan Egwyddorion Uwchgynllunio'r Cyngor, gan sicrhau:<br>• Bod seilwaith ategol, megis trafnidiaeth gynaliadwy, ysgolion, cyfleusterau cymunedol a mannau gwyrdd, yn cael eu darparu ym mhob datblygiad tai strategol newydd;<br>• Bod datblygiadau tai newydd y Cyngor yn cael eu llywio gan gynllunio da o ran dylunio a seilwaith;<br>• Bod gwelliannau i seilwaith cymunedol ar safleoedd strategol yn cael eu cyfleu i'r cyhoedd. | Pob preswylydd, y rhai o gartrefi incwm isel, pobl anabl a phobl hŷn. | Cynllun Corfforaethol |
| 3.2 | Gweithio gyda chymunedau, darparwyr trafnidiaeth a busnesau i helpu i adfywio'r rhannau mwyaf difreintiedig o Gaerdydd mewn ffordd sy'n cefnogi twf da ac yn cynnig cyfleoedd i'r grwpiau mwyaf difreintiedig. | Cartrefi incwm isel, trigolion BAME, pobl ifanc a phobl anabl. | Cynllun Corfforaethol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.3 | Ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau nodweddion gwarchodedig ar faterion datblygu polisi allweddol neu unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau, gan gynnwys:<br>• Darparu gwybodaeth am fesurau iechyd cyhoeddus Covid-19 mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau ar ein gwefan a thrwy ein rhwydweithiau;<br>• Cynnull fforwm hygyrchedd rheolaidd ar gyfer ymgynghori ynghylch mesurau ymbellhau cymdeithasol mewn mannau cyhoeddus wrth iddynt ailagor yn ystod Covid-19. | Pobl hŷn, pobl sy'n dioddef salwch corfforol a/neu feddyliol. | Cynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth: Polisi a Phartneriaethau |
| 3.4 | Cyflawni ein hymrwymiadau fel dinas sy'n deall demensia i gefnogi'r rhai y mae demensia yn effeithio arnynt i gyfrannu at fywyd eu cymuned a chymryd rhan ynddo. | Pobl hŷn, pobl anabl, pobl sy'n dioddef salwch corfforol neu feddyliol. | Cynllun Corfforaethol<br>Strategaeth Ddemensia 2018-2028 |
| 3.5 | Parhau i gyflawni'r Rhaglen Hybiau Cymunedol, ar y cyd â phartneriaid, gan gynnwys:<br>• Datblygu cynlluniau ar gyfer Canolfannau Ieuenctid yng nghanol y ddinas a Butetown;<br>• Gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd Prifysgol ar Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Hyb Maelfa a Hybiau eraill o fewn Ardal y Gogledd;<br>• Sicrhau bod pobl wedi'u cysylltu â darparwyr gwasanaethau lleol a gweithgareddau yn eu cymdogaeth drwy Swyddogion Cynhwysiant Cymunedol. | Pob preswylydd ond yn enwedig plant a phobl ifanc, pobl hŷn, trigolion BAME, trigolion na chawsant eu geni yn y DU, pobl sy'n dioddef salwch corfforol neu feddyliol a thrigolion anabl. | Cynllun Corfforaethol<br>Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd 2019-2023 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.6 | Mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol a gwella ansawdd bywyd pobl hŷn drwy:<br>• Helpu i feithrin cysylltiadau rhwng dinasyddion, grwpiau, sefydliadau a busnesau preifat;<br>• Dod â phobl ifanc a phobl hŷn at ei gilydd i ddarparu llwyfan lle gellir rhannu sgiliau, profiad a dealltwriaeth. | Pobl hŷn, pobl iau a phobl sy'n dioddef salwch meddyliol. | Cynllun Corfforaethol<br>Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd 2019-2023 |
| 3.7 | Sicrhau ansawdd aer da drwy weithredu a gwerthuso mesurau'r Cynllun Aer Glân a'r Strategaeth Aer Glân Ehangach i sicrhau gostyngiad parhaus yng nghrynodiadau Nitrogen Deuocsid (NO2) ledled y ddinas. | Grwpiau BAME, cartrefi incwm isel, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl anabl a phobl sy'n dioddef salwch corfforol a/neu feddyliol. | Strategaeth Aer Glân<br>Cynllun Aer Glân<br>Cynllun Corfforaethol<br>Strategaeth Caerdydd Un Blaned |
| 3.8 | Gwella'r gwaith o lunio polisïau lleol drwy ddarparu:<br>• Rhaglen o Hyfforddiant Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd ar gael i'r holl staff;<br>• Datblygu cwrs Cydraddoldeb mewn Datblygu Polisïau;<br>• Cynhyrchu canllawiau o ansawdd uchel ar gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol; a<br>• Darparu gwasanaeth cyngor corfforaethol ar gydraddoldeb i bob cyfarwyddiaeth. | Pob preswylydd, ond yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel a'r rhai ag o leiaf un nodwedd warchodedig. | Cynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth: Polisi a Phartneriaethau |

# Amcan 4:
# Creu sefydliad cynhwysol a chynrychioliadol

Byddwn yn gweithredu camau i sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn adlewyrchu amrywiaeth y ddinas a wasanaethwn yn well, ac yn weithle lle mae cydweithwyr yn teimlo'n hyderus am fod yn nhw eu hunain yn y gwaith.

| | Yr hyn a wnawn | Grwpiau arbennig o berthnasol | Yn gysylltiedig â'r: |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Gostwng cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch drwy:<br>• Barhau i gefnogi lles staff, yn arbennig drwy ddarparu cymorth ychwanegol i staff sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael;<br>• Atgyfnerthu arferion rheoli ar draws pob Cyfarwyddiaeth, gan ganolbwyntio ar ostwng cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch hirdymor. | Holl staff y Cyngor, pobl sy'n dioddef salwch corfforol neu feddyliol, pobl ag anableddau a phobl hŷn. | Cynllun Corfforaethol<br>Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |
| 4.2 | Hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch casglu data cydraddoldeb i'n gweithlu, er mwyn lleihau lefel y data cydraddoldeb heb ei gofnodi mewn perthynas â'n staff. | Holl staff y Cyngor a thrigolion, ond yn arbennig y rhai ag o leiaf un nodwedd warchodedig. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |
| 4.3 | Defnyddio data monitro cydraddoldeb i ddarparu dadansoddiad ar lefel y gyfarwyddiaeth o amrywiaeth y gweithlu. | Holl staff y Cyngor | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |
| 4.4 | Cynnal adolygiad o'n bylchau cyflog rhwng y rhywiau a phobl o wahanol ethnigrwydd a chyhoeddi ein canfyddiadau. | Holl staff y Cyngor, staff BAME a menywod. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.5 | Cefnogi a chydweithio â'n pum grŵp staff gan gynnwys rhwydweithiau staff BAME, Gofalwyr, LHDT, Anabledd a Menywod, gan sicrhau bod y rhwydweithiau hyn yn cael cyfleoedd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau etholedig ac undebau llafur drwy'r Cyngor Gwaith. | Trigolion BAME, gofalwyr, trigolion LHDT, pobl ag anableddau, pobl sy'n dioddef salwch corfforol neu feddyliol a menywod. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |
| 4.6 | Gwneud hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ar gael i bob rheolwr sy'n cyflogi ym mhob rhan o'r Cyngor. | Holl staff y Cyngor a'r holl drigolion. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |
| 4.7 | Defnyddio dulliau recriwtio sy'n ceisio dileu rhagfarn anymwybodol cyn belled ag y bo modd, gan gynnwys peidio â chynnwys enwau ymgeiswyr wrth lunio rhestr fer a sicrhau paneli cyfweld amrywiol lle bynnag y bo modd. | Holl staff y Cyngor a'r holl drigolion. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |
| 4.8 | Gweithio gydag ysgolion a cholegau yng Nghaerdydd i hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr i bobl ifanc. | Pobl ifanc. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |
| 4.9 | Cyflawni ein hymrwymiadau dan Siarter Hil yn y Gwaith Busnes yn y Gymuned | Staff a thrigolion BAME. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |
| 4.10 | Cyflawni ein hymrwymiadau Hyderus o ran Anabledd a chwblhau hunanasesiad yn erbyn y cynllun Hyderus o ran Anabledd yn 2020. | Trigolion anabl. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |
| 4.11 | Meincnodi ein gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb LHDT yn erbyn Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. | Staff a thrigolion LHDT. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |
| 4.12 | Cynnig Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb o safon uchel i bob aelod o staff, gan ymdrin â rhagfarn ddiarwybod, a'i ddiwygio'n rheolaidd i gynnwys materion cydraddoldeb cyfredol. | Holl staff y Cyngor. | Strategaeth Gweithlu 2018-2021 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4.13 | Parhau i gefnogi'r Economi Sylfaenol drwy ein Polisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol, gan sicrhau bod pobl a chymunedau lleol yn cael budd o'r arian y mae'r Cyngor yn ei wario ar nwyddau a gwasanaethau ac yn gweithio gyda phartneriaid i edrych sut y gallwn hyrwyddo cyfleoedd ymhellach ar gyfer Mentrau Cymdeithasol yng Nghaerdydd. | Pobl o gartrefi incwm isel, y rhai sy'n profi diweithdra hirdymor, y rhai sy'n cael eu tangynrychioli yn yr economi leol. | Cynllun Corfforaethol<br>Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol |
| 4.14 | Cyfrannu at ddatblygu'r Mesurau Mantais Gymunedol (TOMs) ledled Cymru ac ymgorffori'r fframwaith dilynol yn ein tendrau dros £1 miliwn, gan adrodd ar sut rydym yn cyflawni yn erbyn y fframwaith drwy'r Porth Gwerth Cymdeithasol. | Pobl o gartrefi incwm isel, y rhai sy'n profi diweithdra hirdymor, y rhai sy'n cael eu tangynrychioli yn yr economi leol. | Polisi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol |
| 4.15 | Parhau i sicrhau bod Datganiad Caethwasiaeth Fodern y Cyngor yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol a monitro ac adrodd ar y modd y caiff ei gyflawni. | Dioddefwyr caethwasiaeth fodern a phobl ar incwm isel. | Cynllun Cyflawni'r Adran Gomisiynu a Chaffael |
| 4.16 | Rhoi cefnogaeth amlwg i ymgyrchoedd cydraddoldeb allweddol drwy gydol y flwyddyn; er enghraifft, Pride a Diwrnod Rhuban Gwyn. | Holl staff y Cyngor. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Phartneriaethau |
| 4.17 | Sicrhau bod gwybodaeth am yr amcanion cydraddoldeb hyn a'r cynnydd a wneir tuag atynt yn cael ei chyfleu'n rheolaidd i gydweithwyr ar ôl cynhyrchu ein hadroddiad blynyddol yn erbyn y strategaeth hon. | Holl staff y Cyngor. | Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Polisi a Phartneriaethau |




UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD